Taflen ffeithiau

Mae'r cyfan yn y cymysgedd

- Er mwyn diwallu anghenion pawb sy'n byw yn y DU, mae angen pobl o bob cefndir a gradd i ddod yn rhoddwyr. Fodd bynnag, mae gan rai cymunedau bryderon ynghylch rhoi neu dderbyn rhoddion.

Credau crefyddol

- Mae penderfynu dod yn rhoddwr yn beth personol iawn ac yn benderfyniad y mae'n rhaid i chi eich hun ei wneud.
- Mae pob prif grefydd yn y DU yn cefnogi egwyddorion rhoi gwaed, mêr esgyrn ac organau. Mae'r rhain yn cynnwys Bwdhaeth, Cristnogaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth.
- Mae pob un yn derbyn bod rhoi organau'n fater o ddewis personol.
- Os oes gennych unrhyw amheuon, dylech eu trafod gyda'ch arweinydd ysbrydol neu grefyddol.

Cefndir ethnig

- Mae angen mwy o roddwyr o'r cymunedau Caribïaidd ac Asiaidd. Mae hyn oherwydd:
  - Mae rhai teipiau gwaed ac Antigen Lewcosyt Dynol (ALD) yn fwy cyffredin ymhlith rhai cymunedau ethnig.
  - Mae rhai grwpiau ethnig yn fwy tebygol o ddatblygu cyflyrau meddygol penodol sydd angen rhoddion gwaed, organau, meinwe neu fêr esgyrn.
- Golyga hyn fod claf sydd ag angen gwaed neu fêr esgyrn yn fwy tebygol o ddod o hyd i gydweddiad gan rywun o gefndir ethnig tebyg.
- Yn aml gwneir trawsblaniadau organau llwyddiannus rhwng pobl o wahanol grwpiau ethnig, ond yn achos nifer fechan o bobl sydd â theipiau ALD prin, dim ond organ â chydweddiad da gan rywun o'r un tarddiad ethnig sy'n dderbyniol, felly mae'n bwysig bod pobl o bob cefndir ethnig yn cofrestru i roi organau.
- Mae pobl o gymunedau De Asiaidd, Affricanaidd ac Affricanaidd Caribïaidd yn y DU deirgwaith yn fwy tebygol o fod ag angen trawsblaniad aren na phobl croenwyn. Mae hyn am eu bod yn fwy tebygol o ddatblygu diabetes neu bwysedd gwaed uchel a all arwain at fethiant yr arennau.
- O ganlyniad, mae'n rhaid i bobl groenddu ac Asiaidd aros ddwywaith yn hirach na pherson croenwyn ar gyfartaledd am drawsblaniad aren.